

Cofnodi a Chadw Negeseuon Testun a Gohebiaeth Electronig Arall

1

Mae teuluoedd yn defnyddio negeseuon testun a llwyfannau eraill fwyfwy fel ffordd o gyfathrebu gyda'i gilydd, gyda'r teulu estynedig, a gyda ffrindiau a gweithwyr proffesiynol. Felly, mae cofnodi a chadw gwybodaeth a dderbynnir drwy destun, y cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau negeseua eraill yn gynyddol bwysig.

2

Mae Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig wedi amlygu'r angen am bolisi amlasiantaeth i sicrhau bod dull cyson o gofnodi a chadw gwybodaeth a dderbynnir ac a anfonir drwy unrhyw fath o dechnoleg.

3

Rhaid i bolisiâu penodol y sefydliad ar gyfer cadw cofnodion, storio gwybodaeth a rheoli gwybodaeth fod yn berthnasol i bob cofnod gan gynnwys y rhai mewn cyfryngau electronig – a anfonir gan staff a gan ddefnyddwyr gwasanaeth a phobl eraill sy'n ymwneud â gwaith achos.

4

Rhaid cofnodi unrhyw gyswllt a wneir ag unigolyn neu am unigolyn drwy neges destun neu gyfryngau electronig yn ffeil yr unigolyn fel 'cofnod cyswllt'. Rhaid cofnodi neges, rhif ffôn, dyddiad ac amser yr holl destun sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan, a negeseuon electronig eraill yn unol â pholisi eich sefydliad.

5

Bydd staff yn sicrhau mai dim ond drwy ffonau symudol neu offer cyfrifiadurol a ddarperir gan y cyflogwr a ddefnyddir wrth anfon neu dderbyn negeseuon testun ac unrhyw negeseuon electronig eraill. Rhaid ystyried pob cyswllt ag eraill fel cyswllt proffesiynol. Am y rheswm hwn yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd, rhaid defnyddio barn wrth ymateb i neges destun / neu unrhyw gyfathrebiad electronig arall

6

Dylai'r defnydd o ffonau symudol a chyfryngau electronig fod yng nghyd-destun darn o waith wedi'i gynllunio a'i oruchwylio bob amser. Rhaid i weithwyr cyfrifol a rheolwyr llinell sicrhau bod unrhyw ddefnydd o dechnoleg ddigidol yn cael ei drafod fel rhan o oruchwyliaeth, asesu risg, ac unrhyw benderfyniad a gofnodir ar ffeil cofnod a goruchwyliaeth y cleient, fel y bo'n briodol.

Mae'n bwysig nodi y bydd unrhyw negeseuon a gedwir yn wybodaeth yn amodol ar Ddeddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Mae Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn disgwyl i bob aelod-asiantaeth fod â pholisiâu ar waith i gefnogi arferion e-ddiogelwch.



[Dolen i'r Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth](#)

ABC

[Polisi Cyfryngau
Cymdeithasol Gofal
Cymdeithasol Cymru](#)



[Polisi Cyfryngau
Cymdeithasol Polisi De
Cymru](#)